# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 4

SAFONAU

## PENNOD 8

YMCHWILIADAU AC ADRODDIADAU SAFONAU

*Adroddiadau safonau*

### 64 Adroddiad safonau

(1) Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad safonau.

(2) Dogfen sy'n nodi'r canlynol yw adroddiad safonau—

(a) casgliadau'r ymchwiliad safonau, a

(b) rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny.

(3) Os—

(a) casgliadau'r ymchwiliad (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i P, a

(b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1),

rhaid i'r adroddiad nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio adroddiad safonau—

(a) rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad—

(i) at bob person perthnasol,

(ii) at y Panel Cynghori,

(iii) at bob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63, a

(iv) at Weinidogion Cymru, a

(b) caiff y Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at unrhyw berson arall a chanddo ddiddordeb yn yr adroddiad ym marn y Comisiynydd.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "person perthnasol"—

(a) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson penodol, yw'r person hwnnw;

(b) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â grŵp o bersonau, yw personau—

(i) yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp, a

(ii) y mae'n briodol anfon copi o'r adroddiad atynt yn nhyb y Comisiynydd.